Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymorth ariannol i fyfyrwyr israddedig mewn addysg uwch 2025-26
## - canllaw i etholwyr

Ar gyfer mynediad ym mis Medi 2025



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymorth ariannol i fyfyrwyr israddedig mewn addysg uwch 2025-26
## - canllaw i etholwyr

Ar gyfer mynediad ym mis Medi 2025

**Awdur:**
Dr. Thomas Morris

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 1**

**2. Meini prawf cymhwysedd ........ 2**

Eich cenedligrwydd a phreswyliaeth ........ 2

Eich cwrs ........ 3

Eich prifysgol neu eich coleg ........ 3

Oedran ........ 4

Astudiaethau blaenorol ........ 4

**3. Cyrsiau llawnamser: help gyda ffioedd dysgu ........ 6**

Prifysgolion a cholegau cyffredin a phreifat ........ 6

Bwrsariaeth y GIG ........ 7

Bwrsariaeth gwaith cymdeithasol ........ 7

**4. Cyrsiau llawnamser: help gyda chostau byw ........ 8**

Grantiau a benthyciadau cynhaliaeth ........ 8

Trefniadau yng Nghymru i ganslo rhan o'r benthyciad cynhaliaeth ........ 9

**5. Help os ydych yn dilyn cwrs rhan-amser ........ 10**

Ffioedd dysgu ........ 10

Costau byw ........ 10

**6. Ffynonellau eraill o gymorth ariannol ...................................12**

Grantiau dibynyddion ...................................12

Gofal plant am ddim ...................................13

Lwfansau i fyfyrwyr anabl ...................................14

Grant teithio ................................... 15

Cymorth arbennig ................................... 16

Cronfeydd prifysgolion a sefydliadau ...................................17

Dawns, drama a cherdd ...................................17

Astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ................................... 18

Cyrsiau sy'n hirach na 30 wythnos a 3 diwrnod ................................... 18

Tocynnau teithio rhatach ................................... 18

**7. Lincs i ragor o wybodaeth am gymorth ariannol ..................19**

# 1. Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys gwybodaeth am y mathau gwahanol o gymorth ariannol a allai fod ar gael i chi os ydych yn bwriadu dilyn cwrs addysg bellach llawn-amser neu ran-amser yn 2025-26. Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i fyfyrwyr sydd fel arfer yn preswylio yng Nghymru.

Gall cymorth ariannol i fyfyrwyr helpu gyda ffioedd dysgu a chostau byw.

Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn darparu gwasanaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru, sy'n asesu eich cymhwysedd am gyllid ac sy'n gwneud taliadau ar ffurf grantiau neu fenthyciadau i chi (ar gyfer costau byw) neu i'ch darparwr (ar gyfer ffioedd dysgu).

Mae'r rheolau ynghylch cymorth ariannol myfyrwyr yn gymhleth, ac mae llawer o eithriadau ac amgylchiadau arbennig yn gysylltiedig â nhw. Byddwch yn gweld bod yr ymadrodd 'fel arfer' yn cael ei ddefnyddio'n aml yn y canllaw hwn. Y rheswm am hyn yw mai canllaw cyffredinol yw'r ddogfen hon, ac nid yw'n cwmpasu pob posibilrwydd o ran amgylchiadau neu hawliau.

Efallai na fyddwch yn gymwys i gael pob math o gymorth a nodir yn y canllaw hwn, neu'r uchafsymiau a ddangosir, gan ddibynnu ar amgylchiadau eich aelwyd a'ch man astudio.

Mae gwybodaeth i rieni a phartneriaid ar gael ar **wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

*Ymwadiad: Mae pobl yn holi Ymchwil y Senedd yn rheolaidd ynghylch cyllid myfyrwyr ac mae'r hysbysiad hwylus hwn yn nodi gwybodaeth am rai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin. Ni fwriedir iddo fod yn ganllaw cynhwysfawr a dylech bob amser ofyn am gyngor gan Cyllid Myfyrwyr Cymru neu weithiwr proffesiynol cymwysedig sydd wedi'i deilwra i'ch sefyllfa unigol.*

# 2. Meini prawf cymhwysedd

Mae'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cyllid i fyfyrwyr israddedig yn gymhleth. Canllaw cyffredinol yw'r wybodaeth isod ac nid yw'n cwmpasu'r holl amgylchiadau posibl. Mae rhagor o fanylion ar gael ar **wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich cymhwysedd, dylech gysylltu â **Chyllid Myfyrwyr Cymru** yn uniongyrchol.

Mae cymhwysedd ar gyfer cyllid i fyfyrwyr israddedig fel arfer yn dibynnu ar y meini prawf a ganlyn:

- eich cenedligrwydd a phreswyliaeth;
- eich cwrs;
- eich oedran; ac
- eich astudiaethau blaenorol.

## Eich cenedligrwydd a phreswyliaeth

Gallwch wneud cais am gyllid i fyfyrwyr yng Nghymru os ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf a ganlyn:

- rydych yn wladolyn y DU, yn wladolyn Iwerddon neu fod gennych statws preswylydd sefydlog;
- byddwch yn byw yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs; ac
- rydych wedi bod yn byw yn y DU a'r Ynysoedd Prydeinig am 3 blynedd cyn dechrau eich cwrs.

Os nad ydych yn bodloni'r meini prawf hyn, efallai y byddwch chi'n dal yn gymwys i wneud cais am gymorth. Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth am feini prawf cymhwysedd yn seiliedig ar **genedligrwydd a phreswyliad**.

### Myfyrwyr rhyngwladol

Sylwer **na ddylai unrhyw wybodaeth yn y canllaw hwn gael ei hystyried yn gyngor ar fewnfudo**. Mae cyngor ar fewnfudo wedi'i reoleiddio'n llym a dim ond **cynghorwyr sydd wedi'u cofrestru** neu gorff proffesiynol cymeradwy sy'n gallu ei gynnig.

Yn aml, mae gan ddarparwyr addysg uwch swyddfa ryngwladol a all helpu gydag unrhyw gwestiynau sydd gennych am eich amgylchiadau penodol.

Mae Cyngor y DU dros Faterion Myfyrwyr Rhyngwladol (**UKCISA**) yn cyhoeddi gwybodaeth am **'gategorïau' o fyfyrwyr sy'n gallu mynnu talu ffioedd 'cartref'**, ac mae gan y UKCISA hefyd **fanylion cyswllt ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol** sydd â chwestiynau am eu cymhwysedd i gael cymorth.

## Eich cwrs

I fod yn gymwys i wneud cais am gyllid i fyfyrwyr, mae'n rhaid i'ch cwrs gael ei ddarparu yn y DU. Mae cyrsiau cymwys yn cynnwys y cyrsiau a ganlyn:

- gradd gyntaf;
- gradd sylfaen;
- tystysgrif addysg uwch;
- diploma addysg uwch;
- tystysgrif genedlaethol uwch;
- diploma cenedlaethol uwch;
- tystysgrif addysg i raddedigion; a
- cwrs addysg gychwynnol i athrawon.

## Eich prifysgol neu eich coleg

Rhaid i'ch darparwr naill ai fod:

- wedi'i ariannu gan y Llywodraeth; neu'n
- cael ei ariannu'n breifat ond yn cynnal cyrsiau unigol sydd wedi'u cymeradwyo i'w hariannu gan Lywodraeth Cymru (gelwir y cyrsiau hyn yn 'gyrsiau dynodedig').

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cyhoeddi **rhestr o 'gyrsiau dynodedig'** gan ddarparwyr preifat sydd wedi'u cymeradwyo'n benodol ar gyfer cyllid i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru.

Os nad ydych yn siŵr a yw eich cwrs yn gymwys i gael cymorth ariannol, dylech gysylltu â'ch prifysgol neu goleg.

## Oedran

Nid oes terfyn oedran er mwyn bod yn gymwys i gael benthyciad ar gyfer ffioedd dysgu, ond mae'n rhaid i chi fod o dan 60 oed i fod yn gymwys am fenthyciad cynhaliaeth.

## Astudiaethau blaenorol

Mae rheolau cymhleth yn llywio'r cymorth y mae gennych hawl iddo os ydych yn ystyried dilyn cwrs sydd â lefel gyfatebol i gwrs rydych wedi'i ddilyn eisoes, p'un a ydych wedi'i gwblhau ai peidio. Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i gyrsiau llawnamser a rhan-amser.

Os ydych eisoes wedi dilyn cwrs addysg uwch ar lefel israddedig, dylech siarad â Chyllid Myfyrwyr Cymru cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch dechrau cwrs newydd. Dylai Cyllid Myfyrwyr Cymru allu eich cynghori ynghylch a ydych yn gymwys i gael cyllid drwy asesu a yw eich amgylchiadau'n dod o dan un o'r 'categorïau o eithriadau'.

### Os ydych yn dymuno astudio ar sail lawnamser

Os ydych **wedi newid cwrs neu'n ailadrodd blwyddyn ar sail lawnamser**, gallwch gyfrifo faint o gyllid ar gyfer ffioedd dysgu a chostau cynhaliaeth y gallech fod yn gymwys i'w gael drwy gyfrifo hyd y cwrs rydych chi'n gwneud cais amdano mewn blynyddoedd ac ychwanegu un flwyddyn, cyn tynnu i ffwrdd nifer y blynyddoedd yr ydych eisoes wedi'u treulio yn astudio. Os nad oes gennych ddigon o flynyddoedd o gyllid i dalu am eich cwrs newydd, bydd yn rhaid i chi dalu am y blynyddoedd ychwanegol hyn eich hun cyn y gallwch gael cyllid i fyfyrwyr.

Efallai y byddwch yn gymwys i gael blwyddyn ychwanegol o gyllid os bu'n rhaid i chi adael cwrs blaenorol am 'resymau personol cymhellol'. Bydd gofyn i chi anfon tystiolaeth o'r amgylchiadau penodol hyn at Gyllid Myfyrwyr Cymru.

**Os oes gennych chi radd yn barod** ond rydych eisiau astudio cwrs arall ar sail lawnamser, mae cymhwysedd ar gyfer cyllid i fyfyrwyr ar gyfer gradd israddedig arall yn seiliedig ar p'un ag ydych yn dymuno astudio ar gyfer un o'r eithriadau a ganlyn:

- cwrs addysg gychwynnol i athrawon;
- meddygaeth a deintyddiaeth;

- cyrsiau gofal iechyd;
- milfeddygaeth;
- gwaith cymdeithasol; neu
- bensaernïaeth.

Fodd bynnag, mae natur y cyllid y gallech fod yn gymwys i'w gael yn gymhleth. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru.

## Os ydych yn dymuno astudio ar sail ran-amser

Yn Yn gyffredinol, os gwnaethoch ddechrau cwrs rhan-amser ar 1 Medi 2014, neu ar ôl hynny, mae'n bosibl y bydd gennych hawl i gael **cymorth ariannol ar gyfer cyrsiau rhan-amser** am gyfnod o hyd at 16 mlynedd. Mae hyn yn galluogi myfyrwyr i newid i gyrsiau rhan-amser gwahanol neu ailadrodd blwyddyn o'r un cwrs.

**Os oes gennych radd yn barod** ond rydych yn dymuno astudio cwrs arall ar sail ran-amser, mae cymhwysedd ar gyfer cyllid i fyfyrwyr ar gyfer gradd israddedig arall yn seiliedig ar p'un ag ydych yn dymuno astudio ar gyfer un o'r eithriadau a ganlyn:

- pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth;
- gwyddorau biolegol a gwyddor chwaraeon;
- seicoleg;
- gwyddorau milfeddygol;
- amaethyddiaeth, bwyd a gwyddorau cysylltiedig;
- gwyddorau corfforol;
- gwyddorau mathemategol;
- peirianneg a thechnoleg;
- cyfrifiadureg;
- y Gymraeg; ac
- addysg gychwynnol i athrawon.

I gael gwybod a yw eich cwrs yn gymwys ar gyfer benthyciad i dalu ffioedd dysgu a grantiau a benthyciadau ar gyfer costau byw fel eithriad, dylech gysylltu â Chyllid Myfyrwyr Cymru.

# 3. Cyrsiau llawnamser: help gyda ffioedd dysgu

Mae faint o fenthyciad ar gyfer ffioedd dysgu y gallwch ei hawlio yn dibynnu ar gost y cwrs a ble rydych am astudio. **Nid** yw'n seiliedig ar incwm eich aelwyd.

Caiff y benthyciad ar gyfer ffioedd dysgu ei dalu'n uniongyrchol i'ch prifysgol neu goleg.

Mae rheolau cymhleth yn llywio faint y bydd yn rhaid i chi ei dalu'n ôl os byddwch yn gadael eich cwrs cyn ei gwblhau. Mae hyn yn dibynnu ar y ffactorau a ganlyn:

- y math o gyllid i fyfyrwyr yr ydych wedi'i dderbyn;
- pryd yn ystod y flwyddyn academaidd y byddwch yn gadael eich cwrs; ac
- a ydych yn bwriadu dychwelyd i'r cwrs ai peidio.

Mae rhagor o wybodaeth am gyllid i fyfyrwyr os byddwch yn gohirio neu'n gadael eich cwrs ar gael ar **wefan Llywodraeth y DU**.

Bydd yn rhaid i chi **dalu eich benthyciad yn ôl**, **gan gynnwys llog**, ar ôl i chi orffen neu adael eich cwrs

## Prifysgolion a cholegau cyffredin a phreifat

Os ydych yn astudio mewn prifysgol neu goleg a reoleiddir ac a ariennir yn gyhoeddus, uchafswm y ffioedd dysgu y gellir eu codi ar fyfyrwyr penodol ar gyfer cyrsiau israddedig llawnamser penodol yw **£9,535 y flwyddyn**.

Mae dau brif wahaniaeth os ydych yn astudio mewn prifysgol neu goleg preifat.

1. Nid oes cyfyngiadau ar y ffioedd dysgu y gall prifysgolion neu golegau preifat eu codi arnoch.
2. Mae swm y benthyciad sydd ar gael i dalu ffioedd dysgu yn llai na phe byddech wedi dewis astudio mewn prifysgol neu goleg cyhoeddus - y swm yw £6,355 i fyfyrwyr sydd 'fel arfer yn preswylio' yng Nghymru. Mae hyn yn golygu, os bydd prifysgol neu goleg preifat yn codi ffioedd sy'n fwy nag uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu y gallwch ei gael, y bydd yn rhaid i chi dalu'r gwahaniaeth eich hunan..

Dim ond os yw eich cwrs wedi'i gymeradwyo y gallwch gael benthyciad i dalu ffioedd dysgu a godir gan ddarparwr preifat. Caiff rhestr lawn o gyrsiau a gymeradwywyd ("wedi'u dynodi") gan Lywodraeth Cymru ei chyhoeddi gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.

## Bwrsariaeth y GIG

Os ydych yn dilyn cwrs a fydd yn arwain at gymhwyster mewn meddygaeth, deintyddiaeth neu ofal iechyd, mae'n bosibl y gallwch gael **bwrsariaeth gan GIG Cymru**. Caiff Bwrsariaeth y GIG ei hasesu gan **Gynllun Bwrsariaeth y GIG**, sydd hefyd yn talu amdani, nid gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.

Dylech gysylltu â Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr GIG Cymru am ragor o wybodaeth.

## Bwrsariaeth gwaith cymdeithasol

Os ydych yn dilyn cwrs gradd israddedig cymeradwy mewn gwaith cymdeithasol, gallwch wneud cais am fwrsariaeth gwaith cymdeithasol gan **Gofal Cymdeithasol Cymru**.

I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys meini prawf cymhwysedd, dylech gysylltu â **Thîm Ariannu Myfyrwyr a Grantiau Gofal Cymdeithasol Cymru**.

# 4. Cyrsiau llawnamser: help gyda chostau byw

Mae cymorth ariannol ar gyfer costau byw yn fwy cymhleth na benthyciadau i dalu ffioedd dysgu gan fod incwm eich aelwyd yn cael ei ystyried. Ystyrir incwm eich aelwyd i helpu i gyfrifo'r **rhaniad rhwng** y grant cynhaliaeth a roddir a'r benthyciad y bydd yn rhaid ei ad-dalu. Fodd bynnag, **nid** yw incwm eich aelwyd yn effeithio ar yr uchafswm cyffredinol y gallech ei gael.

## Grantiau a benthyciadau cynhaliaeth

Mae'r cydbwysedd rhwng y grant a'r benthyciad rydych yn eu cael ar gyfer costau byw yn seiliedig ar incwm eich aelwyd, lle byddwch yn astudio a lle byddwch yn byw.

Gall y rhan fwyaf o fyfyrwyr gael o leiaf £1,000 fel grant cynhaliaeth, nad oes yn rhaid ei dalu'n ôl. Y tu hwnt i'r grant hwnnw, mae gweddill y cymorth ar gyfer costau byw yr ydych yn gymwys i'w gael yn dod o'r benthyciad cynhaliaeth, y bydd yn rhaid i chi ei ad-dalu. Gallwch gael help ychwanegol mewn amgylchiadau penodol, megis os oes gennych ddibynyddion. Caiff hyn ei esbonio yn ddiweddarach yn y canllaw hwn.

Bydd cyfanswm blynyddol cyffredinol y cyllid y gallwch ei gael yn gymysgedd o grant cynhaliaeth ynghyd â'r benthyciad cynhaliaeth (os ydych yn dymuno ei gael). Caiff hyn ei dalu'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc ar ddechrau pob tymor, ond dim ond ar ôl i chi gofrestru ar gyfer eich cwrs ac ar ôl i'ch darparwr gadarnhau eich presenoldeb.

Cyfanswm y benthyciad a'r grant cyfunol y byddwch yn ei gael yn **2025-26** yw:

- £10,480 os ydych yn byw gyda'ch rhieni;
- £12,345 os ydych yn byw i ffwrdd o gartref eich rhieni ac yn astudio yn rhywle y tu allan i Lundain; neu
- £15,415 os ydych yn byw i ffwrdd o gartref eich rhieni ac yn astudio yn Llundain.

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cyhoeddi **tablau o amcangyfrifon** sy'n nodi faint o grant cynhaliaeth a benthyciad ad-daladwy y gallech ei gael yn seiliedig ar incwm eich aelwyd a lle rydych chi'n byw ac yn astudio.

Fel gyda'r benthyciad ar gyfer eich ffioedd dysgu, codir llog arnoch ar gyfer eich benthyciad cynhaliaeth o'r diwrnod cyntaf y telir yr arian i'ch cyfrif banc hyd nes i'r

benthyciad gael ei ad-dalu'n llawn neu ei ganslo. Mae rhagor o wybodaeth am **ad-dalu eich benthyciad(au)** ar gael ar wefan Llywodraeth y DU.

## Trefniadau yng Nghymru i ganslo rhan o'r benthyciad cynhaliaeth

Mae'r **cynllun dileu cyllid myfyrwyr yn rhannol** yn berthnasol i fyfyrwyr sydd wedi cael benthyciad cynhaliaeth gan Gyllid Myfyrwyr Cymru ers y flwyddyn academaidd 2010-11 i'w cefnogi i astudio cwrs israddedig llawnamser.

Gall Llywodraeth Cymru ganslo hyd at £1,500 o'ch dyled, a fydd yn cael ei gymhwyso ar ôl ad-daliad cyntaf y benthyciad. Mae rhagor o wybodaeth am faint o'r swm sy'n ddyledus fydd yn cael ei ganslo ac enghreifftiau o fenthyciadau wedi'u canslo ar gael yn y **canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru**.

# 5. Help os ydych yn dilyn cwrs rhan-amser

Yn achos cyrsiau israddedig rhan-amser, caiff y pecyn cymorth cynhaliaeth ei gynnig ar ffurf fersiwn pro rata o'r pecyn llawnamser uchod. Felly, er enghraifft, os ydych yn astudio 50 y cant o amser cwrs llawnamser, byddwch yn cael y ganran gyfatebol o gymorth ariannol.

Mae **gwefan Llywodraeth Cymru** yn nodi: "Rhaid i fyfyrwyr sy'n astudio gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru wneud cais am gymorth rhan-amser, waeth beth yw'r dwysedd astudio".

## Ffioedd dysgu

Fel gyda chyrsiau llawnamser, pennir uchafswm ar gyfer y benthyciad y gallwch ei gael i dalu ffioedd dysgu - nid yw hyn yn ddibynnol ar incwm eich aelwyd. Fodd bynnag, rhaid i chi fod yn astudio ar ddwyster cwrs o 25 y cant o leiaf - gall cyrsiau rhan-amser fod â dwyster cwrs o 25 y cant, 50 y cant neu 75 y cant.

Mae uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr yn 2025-26 wedi'i nodi yn y tabl isod.

| Lleoliad astudio | Benthyciad ffioedd dysgu sydd ar gael yn 2025-26 |
|---|---|
| **Prifysgol neu goleg yng Nghymru, neu'n astudio yn y Brifysgol Agored** | **£2,625** |
| **Prifysgol neu goleg cyhoeddus tu allan i Gymru** | **£7,145** |
| **Prifysgol neu goleg preifat tu allan i Gymru** | **£4,765** |

Ffynhonnell: **Cyllid Myfyrwyr Cymru**

## Costau byw

Yn debyg i fyfyrwyr llawnamser, gall myfyrwyr rhan-amser gael help gyda'u costau byw ar ffurf grant cynhaliaeth a benthyciad cynhaliaeth. Mae'r rhain yn ddarostyngedig i'r uchafsymiau fesul blwyddyn, gyda'r rhaniad rhwng grant a benthyciad yn seiliedig ar incwm eich aelwyd.

Ar gyfer costau cynhaliaeth, yn debyg i gwrs amser llawn, gall myfyrwyr gael cyfuniad o grant cynhaliaeth a benthyciad cynhaliaeth. Bydd swm y grant a'r benthyciad rydych chi'n ei gael yn dibynnu ar incwm eich aelwyd a dwysedd eich cwrs.

Rhaid i chi fod yn astudio ar ddwysedd cwrs o 25 y cant o leiaf i gael grant rhan-amser a benthyciad ar gyfer costau byw, ac i wneud cais am fenthyciad ffioedd dysgu rhan-amser.

I fyfyrwyr rhan-amser, mae cyfanswm y cyllid y gallwch ei gael yn dibynnu ar ddwysedd eich cwrs. Yr uchafswm y gallwch ei gael yn 2025-26 yw:

- £2,276 i fyfyrwyr sy'n astudio ar ddwyster cwrs o 25 y cant;
- £4,553 i fyfyrwyr sy'n astudio ar ddwyster cwrs o 50 y cant; neu
- £6,829 i fyfyrwyr sy'n astudio ar ddwyster cwrs o 75 y cant.

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cyhoeddi tablau **gydag enghreifftiau dangosiadol** o swm y benthyciad a'r grant y gallai myfyriwr ei gael, sy'n amrywio yn ôl dwysedd ei gwrs ac incwm ei aelwyd.

# 6. Ffynonellau eraill o gymorth ariannol

Mae grantiau ychwanegol ar gael i'ch helpu mewn amgylchiadau penodol sy'n golygu bod arnoch angen cymorth ychwanegol. Mae'r cyllid sydd ar gael i fyfyrwyr llawnamser a rhan-amser yn wahanol.

Mae'r rhain oll ar ben unrhyw hawl i fenthyciad ffioedd dysgu a benthyciadau a grantiau cynhaliaeth.

## Grantiau dibynyddion

Mae'r grantiau hyn ar gael i fyfyrwyr sydd â phlant dibynnol neu oedolion dibynnol. Maent ar gael i fyfyrwyr llawnamser a rhan-amser, gan ddibynnu ar ddwysedd y cwrs.

### Grant gofal plant

Mae'r grant gofal plant ar gael i'ch helpu i dalu costau gofal plant os ydych yn fyfyriwr israddedig sydd â phlant o dan 15 oed (neu o dan 17 oed os oes ganddynt anghenion addysgol arbennig).

Yn y flwyddyn ariannol 2025-26, gall y grant dalu am hyd at 85 y cant o'ch costau gofal plant, hyd at uchafswm o £192 yr wythnos ar gyfer un plentyn neu hyd at uchafswm o £329 yr wythnos ar gyfer dau neu ragor o blant. Bydd faint o gyllid y gall myfyriwr rhan-amser ei gael yn seiliedig ar ddwyster ei astudiaethau.

Os nad oes gennych ddarparwr gofal plant ar adeg eich cais, bydd y gefnogaeth sydd ar gael wedi'i chapio ar £147 yr wythnos neu 85 y cant o'r costau gwirioneddol, pa bynnag un sydd isaf. Unwaith y byddwch yn darparu manylion eich darparwr gofal plant, bydd lefel y cyllid yn cael ei hailgyfrifo i'r swm uwch.

Ni fyddwch yn gymwys ar gyfer y grant hwn os ydych:

- yn hawlio'r elfen ofal plant o Gredyd Treth Gwaith neu Gredyd Cynhwysol;
- yn cael gofal plant di-dreth gan Gyllid a Thollau EF;
- yn talu perthynas i ofalu am eich plentyn chi yn unig; neu
- mae'ch partner yn cael cyllid gan y GIG.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar **wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

## Gofal plant am ddim

Gall rhieni i blant tair a phedair oed fod yn gymwys i gael rhagor o gymorth o ran gofal plant gan Lywodraeth Cymru o dan y **Cynnig Gofal Plant**. Gall rhieni i blant tair a phedair oed fod yn gymwys i gael 30 awr o ofal plant am ddim am hyd at 48 wythnos y flwyddyn drwy'r Cynnig Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am y Cynnig Gofal Plant ar gael ar **wefan Llywodraeth Cymru**. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi **canllaw i'r cynnig**. Er mwyn bod yn gymwys, mae'r canllaw yn egluro bod yn rhaid i fyfyrwyr mewn addysg uwch ddarparu tystiolaeth eu bod wedi'u cofrestru ar gwrs mewn sefydliad addysg uwch sydd o leiaf 10 wythnos o hyd.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru **wedi ymrwymo i gynnig 12.5 awr o ofal plant am ddim i bob plentyn dwy oed** erbyn diwedd tymor y Senedd hon. 'Gofal Plant Dechrau'n Deg' yw'r enw a roddir i'r cynnig hwn. Mae rhagor o wybodaeth am y cynnig a ffynonellau eraill o ofal plant ar gael gan y **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd**. Mae gan bob awdurdod lleol Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd sy'n darparu gwybodaeth a chyngor diduedd a di-dâl i bob rhiant a gofalwr.

### Lwfans Dysgu i Rieni

Gall y lwfans dysgu i rieni dalu rhai o'r costau ychwanegol y gallech fod yn eu hwynebu os ydych yn fyfyriwr israddedig sydd â phlant. Nid oes yn rhaid i chi dalu'r lwfans hwn yn ôl.

Ar gyfer blwyddyn academaidd 2025-26, gallwch gael rhwng £53 a £1,945 y flwyddyn fel myfyriwr llawnamser. Bydd faint o gymorth y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar incwm eich aelwyd, incwm eich dibynyddion ac a oes gennych bartner ai peidio. Os ydych yn fyfyriwr rhan-amser, caiff y swm y gallwch ei gael ei gyfrifo yn seiliedig ar ddwyster eich astudiaethau.

Gallwch wneud cais am y lwfans dysgu i rieni os ydych yn bodloni'r meini prawf a ganlyn:

- mae gennych o leiaf un plentyn sy'n dibynnu arnoch yn ariannol; ac
- rydych yn astudio cwrs llawnamser neu ran-amser ac yn cael cyllid myfyrwyr israddedig sy'n ddibynnol ar incwm eich aelwyd.

Nid oes yn rhaid i chi fod yn talu am ofal plant i fod yn gymwys.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar **wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

### Grant oedolion dibynnol

Gall y grant oedolion dibynnol dalu rhai o'r costau ychwanegol y gallech fod yn eu hwynebu os ydych yn fyfyriwr israddedig sydd ag oedolyn sy'n dibynnu arnoch yn ariannol nad yw ei incwm yn fwy na £3,923 y flwyddyn, oni bai eu bod nhw'n ŵr, yn wraig neu'n bartner i chi.

Yr uchafswm sydd ar gael i fyfyrwyr llawnamser yn y flwyddyn academaidd 2025-26 yw £3,407 y flwyddyn. Bydd faint o gymorth y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar incwm eich aelwyd, incwm eich dibynyddion ac a oes gennych bartner ai peidio. Os ydych yn fyfyriwr rhan-amser, caiff y swm y gallwch ei gael ei gyfrifo yn seiliedig ar ddwyster eich astudiaethau.

Gallwch wneud cais am y grant oedolion dibynnol os ydych yn bodloni'r meini prawf a ganlyn:

- mae oedolyn yn dibynnu arnoch yn ariannol;
- rydych yn astudio cwrs llawnamser neu ran-amser ac yn cael cyllid myfyrwyr isrraddedig sy'n ddibynnol ar incwm eich aelwyd;
- rydych dros 25 oed neu fe'ch ystyrir yn oedolyn annibynnol; ac
- rydych wedi dechrau cwrs ar 1 Awst 2018 neu ar ôl y dyddiad hwnnw, rydych o dan 25 oed ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs, fe'ch ystyrir yn oedolyn annibynnol ac rydych yn byw gyda phartner sy'n dibynnu arnoch yn ariannol.

Ni allwch wneud cais os yw'r ffactorau a ganlyn yn berthnasol:

- rydych yn gwneud cais ar ran plentyn;
- rydych yn gwneud cais ar gyfer eich plentyn eich hun bellach sydd wedi tyfu i fyny; neu
- rydych yn gwneud cais ar ran rhywun sydd yn barod yn cael cyllid i fyfyrwyr.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar **wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

## Lwfansau i fyfyrwyr anabl

Gellir defnyddio'r lwfans i fyfyrwyr anabl i dalu rhai o'r costau ychwanegol yr ydych yn eu hwynebu oherwydd cyflwr iechyd meddwl, salwch hirdymor neu unrhyw anabledd arall. Gellir defnyddio'r cyllid hwn i dalu am gostau sy'n gysylltiedig ag astudio, megis offer, cymorth anfeddygol, teithio a llungopïo ac argraffu.

Mae faint o gyllid y gallwch ei gael yn dibynnu ar eich anghenion unigol, nid incwm eich aelwyd.

Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2025-26, gall myfyrwyr israddedig llawnamser neu ran-amser gael hyd at £34,000 y flwyddyn mewn cymorth.

Gallwch wneud cais os oes gennych anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sy'n effeithio ar eich gallu i astudio. Rhaid i chi hefyd fodloni'r gofynion cymhwysedd safonol ar gyfer cyllid myfyrwyr i wneud cais am y lwfans i fyfyrwyr anabl. Gallwch wirio gyda chynghorwyr cyllid myfyrwyr eich prifysgol neu goleg i drafod a yw eich cwrs yn gymwys ar gyfer y lwfans i fyfyrwyr anabl.

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cyhoeddi **canllaw i'r lwfans i fyfyrwyr anabl**.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar **wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

## Grant teithio

Gellir hawlio grant teithio i dalu costau teithio rhwng eich cartref a'r ysbyty neu sefydliad arall lle rydych wedi'ch lleoli os ydych yn fyfyriwr gofal iechyd ar leoliad yn y DU.

Fel arall, os ydych yn astudio dramor, gallwch hawlio'r grant teithio ar gyfer:

- hyd at dair taith ddychwelyd y flwyddyn rhwng y DU a'r brifysgol neu'r coleg dramor; ac
- yswiriant meddygol a fisâu teithio.

Efallai y byddwch yn gymwys i gael grant teithio os ydych naill ai:

- yn astudio dramor fel rhan o'ch cwrs;
- yn cymryd rhan mewn cynllun Erasmus+, Turing neu leoliad astudio neu leoliad gwaith o dan y cynllun Taith; neu
- yn cymryd rhan mewn lleoliad clinigol meddygol neu ddeintyddol yn y DU.

Efallai y byddwch hefyd yn gallu hawlio costau teithio eich plant os ydych yn rhiant sengl.

Rhaid i chi dalu'r £303 cyntaf o unrhyw gostau teithio eich hun os yw incwm eich aelwyd yn llai na £59,200, neu dalu'r £1,000 cyntaf o gostau teithio eich hun os yw

incwm eich aelwyd yn £59,200 neu fwy neu os nad ydych yn cael cyllid myfyrwyr sy'n dibynnu ar incwm eich aelwyd.

Fodd bynnag, **nid yw'r polisi yn ei gwneud yn ofynnol** i fyfyriwr â phrofiad o fod mewn gofal gael ei incwm wedi'i asesu wrth wneud cais am y grant teithio.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar **wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

## Cymorth arbennig

Mae'r grant cymorth arbennig ar gael i fyfyrwyr sy'n hawlio budd-daliadau penodol sy'n gysylltiedig ag incwm, a'i ddiben yw helpu gyda'r gost o brynu llyfrau ac offer ar gyfer eu cyrsiau, yn ogystal â thalu costau teithio.

Efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth arbennig os ydych yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf a ganlyn:

- rydych yn rhiant sengl neu'n rhiant maeth sengl i blentyn neu berson ifanc o dan 20 oed sydd mewn addysg lawnamser islaw lefel addysg uwch;
- mae eich partner hefyd yn fyfyriwr ac mae un neu'r ddau ohonoch yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc o dan 20 oed sydd mewn addysg lawnamser islaw lefel addysg uwch;
- mae gennych anabledd ac rydych yn gymwys ar gyfer y Premiwm Anabledd neu'r Premiwm Anabledd Difrifol;
- rydych yn fyddar ac yn gymwys i gael y lwfans i fyfyrwyr anabl;
- rydych wedi cael eich trin fel rhywun sy'n analluog i weithio am o leiaf 28 wythnos;
- mae gennych anabledd ac rydych yn gymwys i gael lwfans cyflogaeth a chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm;
- rydych yn gymwys i gael budd-dal tai;
- rydych yn gymwys ar gyfer yr elfen dai o Gredyd Cynhwysol;
- rydych yn gymwys i gael Taliad Annibyniaeth Personol;
- rydych yn gymwys i gael Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog;
- rydych yn gymwys i gael lwfans byw i'r anabl;
- rydych yn aros i fynd yn ôl i gwrs ar ôl cymryd amser i ffwrdd o'r cwrs hwnnw y cytunwyd arno oherwydd salwch neu gyfrifoldeb gofalu sydd bellach wedi dod i

ben; neu

- rydych yn 60 oed neu'n hŷn.

Mae rhagor o wybodaeth am gymorth arbennig ar gael ar **wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

## Cronfeydd prifysgolion a sefydliadau

Mae holl brifysgolion Cymru (a'r rhan fwyaf o sefydliadau eraill y DU) yn cynnig rhyw fath o gymorth ariannol dewisol. Mae gan y cynlluniau hyn ystod o wahanol deitlau, ond maent yn cynnwys cronfeydd caledi, bwrsariaethau neu ysgoloriaethau.

Maent at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys gwobrwyo rhagoriaeth academaidd neu ragoriaeth arall a chefnogi myfyrwyr gyda chostau byw neu drafferthion ariannol. Efallai y byddwch yn gallu gwneud cais i rai o'r cynlluniau hyn cyn i chi ddechrau eich astudiaethau, a dim ond ar ôl i chi ddechrau y bydd cynlluniau eraill ar gael. Mae rhai cynlluniau yn cynnig grantiau ac mae'n rhaid ad-dalu rhai mathau eraill o gymorth.

Bydd meini prawf cymhwysedd a rheolau eraill yn dibynnu ar y sefydliad unigol sy'n cynnig unrhyw gynllun o'r fath. Dylech gysylltu â'ch darparwr yn uniongyrchol i gael rhagor o wybodaeth ac i weld pa gymorth neu ddyfarniadau sydd ar gael.

Gallai fod yn ddefnyddiol gwneud hyn cyn i chi ddechrau eich cwrs, oherwydd mae'n bosibl y bydd rhai ffynonellau o gymorth ar gael o'r flwyddyn gyntaf ymlaen.

Mae lincs i dudalennau cymorth ariannol nifer o ddarparwyr wedi'u cynnwys yn adran 7 o'r canllaw hwn.

## Dawns, drama a cherdd

Mae'r cynllun DaDa (Dyfarniadau Dawns a Drama) yn cynnig cymorth yn seiliedig ar asesiad o incwm ar gyfer ffioedd dysgu a chostau byw mewn rhai sefydliadau dawns a drama preifat yn Lloegr.

Mae'r cynllun DaDa yn agored i fyfyrwyr rhwng 16 a 23 oed sy'n dangos talent a thebygolrwydd o lwyddo yn y diwydiant. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun ar gael ar **wefan Llywodraeth y DU**.

Mae'r **Ymddiriedolaeth Celfyddydau Ieuenctid Genedlaethol yn darparu bwrsariaethau** hyd at £1,000 ar gyfer dawns, drama a cherdd i bobl ifanc 12-25 oed. Gellir defnyddio bwrsariaeth i dalu ffioedd dysgu, dosbarthiadau a chostau

eraill. Er bod cyfnodau ymgeisio yn codi sawl gwaith y flwyddyn, y dyddiad cau nesaf ar gyfer ceisiadau yw 7 Awst 2025.

## Astudio drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnig nifer o **ysgoloriaethau i fyfyrwyr** sy'n dilyn o leiaf ran o'u cwrs prifysgol yn Gymraeg. Mae rhagor o wybodaeth am yr ysgoloriaethau a'r gofynion cymhwysedd ar gael ar ei wefan.

## Cyrsiau sy'n hirach na 30 wythnos a 3 diwrnod

Os yw eich cwrs yn para'n hirach na 30 wythnos a 3 diwrnod, gallwch gael benthyciad cynhaliaeth ychwanegol am bob wythnos ychwanegol i helpu gyda'ch costau byw. Mae'r swm a gewch yn dibynnu ar eich sefyllfa byw. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2025-26, gallwch gael:

- £96 yr wythnos os ydych yn byw gyda'ch rhieni;
- £144 yr wythnos os ydych yn byw i ffwrdd o gartref eich rhieni ac yn astudio yn rhywle y tu allan i Lundain; neu
- £184 yr wythnos os ydych yn byw i ffwrdd o gartref eich rhieni ac yn astudio yn Llundain.

Bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn dyfarnu'r swm ychwanegol o gyllid yn awtomatig yn seiliedig ar fanylion y cwrs a ddarperir gan eich prifysgol neu goleg.

## Tocynnau teithio rhatach

Os ydych yn 16-21 oed ac yn byw yng Nghymru, gallwch wneud cais i'r cynllun **Fy Ngherdyn Teithio**. Gall tocyn teithio Fy Ngherdyn Teithio eich helpu i gael gostyngiad o 30 y cant ar bris tocynnau bws wythnosol, misol neu flynyddol i bobl ifanc 16-21 oed.

O 1 Medi 2025, bydd **prosiect peilot** sy'n cael ei gynnal yng Nghymru yn caniatáu i bobl ifanc 16-21 oed brynu tocynnau sengl am £1 neu docynnau dydd am £3.

# 7. Lincs i ragor o wybodaeth am gymorth ariannol

Gall darllenwyr sy'n darllen y canllaw hwn ar-lein ddefnyddio'r lincs isod i gael rhagor o wybodaeth am gymorth ariannol i israddedigion mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru.

## Lincs i wybodaeth am gymorth ariannol i israddedigion ym mhrifysgolion Cymru:

- **Prifysgol Aberystwyth**;
- **Prifysgol Bangor**;
- **Prifysgol Caerdydd**;
- **Prifysgol Metropolitan Caerdydd**;
- **Y Brifysgol Agored yng Nghymru**;
- **Prifysgol Abertawe**;
- **Prifysgol De Cymru**;
- **Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant**; a
- **Phrifysgol Wrecsam**;

## Lincs i wybodaeth am gymorth ariannol mewn sefydliadau addysg bellach yng Nghymru:

- **Coleg Penybon**t;
- **Coleg Caerdydd a'r Fro**;
- **Coleg Cambria** (Rhaid dewis yr opsiwn 'Cyllid a chymorth ariannol');
- **Coleg Gwent**;
- **Coleg Ceredigion (Coleg Sir Gâr)** (Rhaid dewis yr opsiwn 'Cyllid AU');
- **Coleg y Cymoedd** (Rhaid dewis yr opsiwn 'Cymorth ariannol ar gyfer addysg uwch');
- **Coleg Gŵyr Abertawe**;
- **Grŵp Llandrillo Menai**;

- **Grŵp Colegau NPTC**;
- **Coleg Sir Benfro** (Rhaid dewis yr opsiwn ‘Myfyrwyr Addysg Uwch’); a
- **Choleg Merthyr Tudful** (Tudalen gyffredinol am addysg uwch yw hon, nid tudalen benodol am gyllid).

*Nid oes gan Goleg Catholig Dewi Sant dudalen bwrpasol ar gyfer cymorth ariannol i israddedigion